Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Cynllun Iaith Gymraeg APC Bannau Brycheiniog – Ymateb Comisiynydd y Gymraeg i Adroddiad Monitro Blynyddol 2011/12

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Gwybodaeth Sylfaenol | 1 |
| 2 | Datganiad Safonol | 1 |
| 3 | Sylwadau ar berfformiad | 2 |
| 4 | Crynodeb | 5 |

# 1 Gwybodaeth Sylfaenol

| Gwybodaeth Sylfaenol | | Sylw pellach |
|---|---|---|
| **Dyddiad Cymeradwyo Cynllun Iaith Gymraeg APC Bannau Brycheiniog** | 5 Rhagfyr 2006 | |
| **Uwch Swyddog cyfrifol am weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg** | Prif Weithredwr | |
| **Dyddiad disgwyl derbyn Adroddiad Monitro Blynyddol** | 30 Mehefin 2012 | Derbyniwyd yr adroddiad ar 29 Mehefin 2012 |

# 2 Datganiad Safonol

2.1 Prif nod Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

2.1.1 Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

2.1.2 Dros amser, fe fydd pwerau newydd i osod a gorfodi safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is-ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i arolygu cynlluniau iaith statudol trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

2.1.3 Caiff Comisiynydd y Gymraeg ymchwilio i fethiant i weithredu cynllun iaith, honiadau o ymyrraeth â rhyddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru ac, yn y dyfodol, i gwynion ynghylch methiant sefydliadau i gydymffurfio â safonau.

2.1.4 Bydd modd i Gomisiynydd y Gymraeg reoleiddio sefydliadau'n gadarn a chyson drwy safonau, a chaiff benderfynu gosod cosb sifil ar sefydliad os na fydd yn cydymffurfio â gofyniad perthnasol.

### 2.2 Adroddiadau Monitro Blynyddol

2.2.1 Ceir ymrwymiad mewn Cynlluniau Iaith i baratoi a chyflwyno adroddiad monitro yn flynyddol. I bob pwrpas, hunan asesiad yw Adroddiad Monitro Blynyddol. Wrth ymateb iddynt, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn disgwyl i sefydliadau dystio eu bod yn cydymffurfio â'u cynlluniau iaith.

2.2.2 Yng nghyswllt Cynlluniau Iaith, arfer y Comisiynydd fydd dwyn sylw at risgiau a dylanwadu ar berfformiad gyda golwg ar osgoi methiant.

2.2.3 Cyhoeddir pob ymateb i adroddiad monitro blynyddol gyda golwg ar sicrhau tryloywder a mynediad rhwydd at wybodaeth ar berfformiad.

# 3 Sylwadau ar berfformiad

### Cydymffurfiaeth â'r Cynllun Iaith Gymraeg

| Sylwadau ar berfformiad | | Gofynion gweithredu |
|---|---|---|
| **2.1.1** | Nodwn fod yr Awdurdod wedi ymgorffori ystyriaethau ynglŷn â'r Gymraeg i'r broses Sgrinio Effeithiau ar Gydraddoldeb, a bod aelodau staff wedi derbyn hyfforddiant ar gwblhau'r broses. | Eglurwch pa drefniadau sy'n bodoli i sicrhau gwrthrychedd wrth gwblhau'r broses. A yw'r Awdurdod wedi ystyried rhoi rôl i Weithgor y Gymraeg yn y broses? |
| **2.1.2** | Mae'r cynllun iaith Gymraeg yn ymrwymo'r Awdurdod i sicrhau bod cyrff ac unigolion sy'n derbyn cymorth ariannol neu gymorth grant yn gweithredu'n ddwyieithog yn ystod eu gweithgareddau a'u digwyddiadau. Mae disgwyl i'r Awdurdod weithredu'n unol â hynny. | Eglurwch y camau y mae'r Awdurdod yn eu cymryd i sicrhau y gweithredir yn unol â'r cymal hwn. |

### Adrodd ar Ddangosyddion Perfformiad

| Sylwadau ar berfformiad | | Gofynion gweithredu |
|---|---|---|
| **2.3.1**<br>**DP1** | Adroddwyd yn llawn ar y dangosydd hwn.<br>**Nifer a % y swyddi yn y brif dderbynfa a ddynodwyd yn rhai 'Cymraeg hanfodol' ac a lenwyd gan staff dwyieithog:**<br>- 2 swydd yn disgyn i'r categori yn y brif dderbynfa<br>- 1.5 swydd wedi eu dynodi yn swyddi 'Cymraeg hanfodol'<br>- 1 swydd wedi ei llenwi gan | |

| | | |
|---|---|---|
| | siaradwr Cymraeg<br><br>Nid yw'r Awdurdod felly mewn sefyllfa i allu gwarantu gwasanaeth Cymraeg ar y dderbynfa. | |
| | Nodwn fod swyddi wardeiniaid (4 swydd) a swyddogion addysg (1 swydd) gorllewin y parc hefyd wedi eu dynodi yn rhai 'Cymraeg hanfodol'. | Eglurwch beth yw gofynion iaith Gymraeg swyddi wardeiniaid a swyddogion addysg dwyrain y parc a sut mae penderfynu ar ofynion y swyddi hyn. |
| **2.3.2 DP2(a)** | Adroddwyd yn llawn ar y dangosydd hwn.<br>**Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant iaith i lefel cymhwyster penodol.**<br>6 aelod staff wedi mynychu hyfforddiant strwythuredig, gyda chefnogaeth ychwanegol ar gael i fynychu hyfforddiant dwys. | A yw'r Awdurdod wedi ystyried darparu hyfforddiant ar gyfer y staff hynny sydd â sgiliau Cymraeg eisoes ac sy'n dymuno cryfhau'r sgiliau hynny? |
| **2.3.2 DP2(b)** | Adroddwyd yn llawn ar y dangosydd hwn.<br>**Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.**<br>Derbyniodd 10 aelod o staff hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith fel rhan o'r broses gynefino. | A yw'r Awdurdod wedi ystyried darparu sesiynau pellach ar ymwybyddiaeth iaith tu hwnt i'r rhaglen gynefino? |
| **2.3.2 DP3** | Adroddwyd yn llawn ar y dangosydd hwn.<br>**Nifer a % y staff o fewn gwasanaethau'r Awdurdod sy'n gallu siarad Cymraeg fesul**<br>- **adran wasanaeth**<br>- **gradd y swydd**<br>- **gweithle**<br><br>Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn dangos na fu newid arwyddocaol yn sgiliau iaith y gweithlu yn ystod y cyfnod adrodd, er y bu cynnydd bychan (o 12.3% i 15%) yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl yn ystod y flwyddyn. Mae'r wybodaeth yn awgrymu y gall yr Awdurdod gynnig gwasanaeth Cymraeg mewn sefyllfaoedd ble mae'n gwybod beth yw dewis iaith y defnyddiwr. | Mae nifer o sefydliadau bellach yn adrodd ar nifer y swyddi a ddynodwyd yn rhai 'Cymraeg hanfodol' ac a lanwyd gan siaradwyr Cymraeg, ar draws y sefydliad cyfan. A yw'r Awdurdod mewn sefyllfa i adrodd yn yr un modd?<br><br>Eglurwch y trefniadau sy'n bodoli i benderfynu ar ddynodiad ieithyddol swyddi a ddaw'n wag ac sy'n cael eu hysbysebu.<br><br>Eglurwch sawl swydd gafod ei hysbysebu yn ystod y flwyddyn, a sawl un a ddynodwyd yn rhai 'Cymraeg hanfodol'. |

## Safon y Gwasanaeth Cymraeg

| Sylwadau ar berfformiad | | Gofynion gweithredu |
|---|---|---|
| **2.3.3<br>DP4** | Adroddwyd yn rhannol ar y dangosydd hwn.<br>**Nifer y cwynion a dderbyniwyd am weithrediad y cynllun iaith a % y cwynion yr ymdriniwyd â hwy yn unol â safonau corfforaethol y Cyngor.**<br>Derbyniwyd 1 gwyn yn ystod y cyfnod adrodd.<br><br>Nid yw nifer y cwynion a dderbyniwyd o reidrwydd yn gyfystyr â bodlonrwydd. Nodwn y bydd yr Awdurdod yn datblygu dulliau eraill o fesur ansawdd y gwasanaeth a bodlonrwydd ag ef wrth fabwysiadu cynllun iaith Gymraeg diwygiedig. | Eglurwch a ymdriniwyd â'r gwyn yn unol â'r gofynion corfforaethol h.y. targed ymateb ayb. |

## Dangosyddion Eraill

| Sylwadau ar berfformiad | | Gofynion gweithredu |
|---|---|---|
| **2.4.1** | Nodwn y bydd pob cyhoeddiad sydd ar werth i'r cyhoedd ar gael yn ddwyieithog o fis Medi ymlaen. Gwelwyd cynnydd hefyd yn nifer y cyhoeddiadau sydd ar gael am ddim i'r cyhoedd yn ystod y cyfnod adrodd.<br><br>Nodwn mai ar y wefan yn unig y cyhoeddir fersiwn Cymraeg prif gyhoeddiad i ymwelwyr yr Awdurdod, *Visitor Guide.* | Eglurwch pam nad yw'r Awdurdod yn cyhoeddi'r ddogfen hon yn Gymraeg ar ffurf copi caled. |
| **2.4.3** | Nodwn y bydd gwefan yr Awdurdod yn gwbl ddwyieithog erbyn mis Awst 2012, a bod trefniadau wedi eu gwneud er mwyn sicrhau y cyfieithir pob tudalen newydd neu dudalen ddiwygiedig. | Eglurwch sut y bydd y trefniadau hyn yn sicrhau na fydd tudalennau Saesneg yn ymddangos ar y wefan wrth i'r tudalennau Cymraeg gael eu cyfieithu. |

# 4 Crynodeb

| | | |
|---|---|---|
| Gwybodaeth bellach ofynnol | 2.1.1 Eglurwch pa drefniadau sy’n bodoli i sicrhau gwrthrychedd wrth gwblhau’r broses. A yw’r Awdurdod wedi ystyried rhoi rôl i’r Grŵp Iaith Gymraeg yn y broses?<br><br>2.1.2 Eglurwch y camau y mae’r Awdurdod yn eu cymryd i sicrhau y gweithredir yn unol â’r cymal hwn.<br><br>2.3.1 Eglurwch beth yw gofynion swyddi wardeiniaid a swyddogion addysg dwyrain y parc a sut mae penderfynu ar ofynion y swyddi hyn.<br><br>2.3.2 DP3 Eglurwch y trefniadau sy’n bodoli i benderfynu ar ddynodiad ieithyddol swyddi a ddaw’n wag ac sy’n cael eu hysbysebu.<br><br>2.3.2 DP3 Eglurwch sawl swydd gafod ei hysbysebu yn ystod y flwyddyn, a sawl un a ddynodwyd yn rhai ‘Cymraeg hanfodol’.<br><br>2.3.3 DP4 Eglurwch a ymdriniwyd â’r gwyn yn unol â’r gofynion corfforaethol h.y. targed ymateb ayb.<br><br>2.4.1 Eglurwch pam nad yw’r Awdurdod yn cyhoeddi’r ddogfen hon yn Gymraeg.<br><br>2.4.3 Eglurwch sut y bydd y trefniadau hyn yn sicrhau na fydd tudalennau Saesneg yn ymddangos ar y wefan wrth i’r tudalennau Cymraeg gael eu cyfieithu. | O fewn 20 diwrnod gwaith o dderbyn yr ymateb os na nodir yn wahanol. |
| Cwestiynau y mae’n rhaid eu hateb | 2.3.1 Mae nifer o sefydliadau bellach yn adrodd ar nifer y swyddi a ddynodwyd yn rhai ‘Cymraeg hanfodol’ ac a lanwyd gan siaradwyr Cymraeg, ar draws y sefydliad cyfan. A yw’r Awdurdod mewn sefyllfa i adrodd yn yr | Dylid ymateb i’r cwestiynau yma yn ystod ein cyfarfod dilynol a gynhelir yn fuan. |

un modd?

2.3.2 DP3 Mae nifer o sefydliadau bellach yn adrodd ar nifer y swyddi a ddynodwyd yn rhai 'Cymraeg hanfodol' ac a lanwyd gan siaradwyr Cymraeg, ar draws y sefydliad cyfan. A yw'r Awdurdod mewn sefyllfa i adrodd yn yr un modd?

2.3.2DP2(a) A yw'r Awdurdod wedi ystyried darparu hyfforddiant ar gyfer y staff hynny sydd â sgiliau Cymraeg eisoes ond sy'n dymuno cryfhau'r sgiliau hynny?

2.3.2(b) A yw'r Awdurdod wedi ystyried darparu sesiynau pellach ar ymwybyddiaeth iaith tu hwnt i'r rhaglen gynefino?